




Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

# Llifogydd!



Roderick Hunt  
Alex Brychta



Roedd wedi bod yn bwrw glaw ers diwrnodau.

“Y glaw hyn i gyd,” meddai Cad. “Basai’n dda gyda fi petai’n peidio.”

“Rwy’n mynd â Mwlsyn am dro,” meddai Mam.

“Pwy sydd am ddod?”

Edrychodd Cad a Dids arni.

“Dim ni!” medden nhw. “Mae’n bwrw glaw!”



Yn y diwedd, dywedodd Cad yr âi hi gyda Mam. Aethon nhw i mewn i'r parc. Doedd dim llawer o hwyl yn y glaw.

“Edrych ar Mwlsyn,” meddai Mam. “All e ddim peidio â bod yn fwdlyd. Mae'r ddaear mor wlyb a chorslyd.”




Cerddodd Cad a Mam ar draws y parc. Roedden nhw am groesi'r bont fach, ond roedd y nant wedi gorlifo.

“Wes i erioed mohoni mor uchel â hyn,” meddai Mam.

Roedd Cad yn gyffrous.

“O edrych!” meddai. “Mae'r bont dan ddŵr.”



Dechreuodd Cad gerdded drwy'r dŵr ar y bont, ond galwodd Mam hi yn ôl.

“Dyw hynny ddim yn syniad da,” meddai Mam.  
“Mae'r nant yn llyfo'n gyflym iawn a fedri di ddim gweld yr ymyl. Beth petait yn disgyn i mewn?”

“Os bydd yn dal i fwrw glaw, bydd y dŵr yn gorlifo dros y parc,” meddai Cad.

Edrychodd Mam yn feddylgar.

“Gobeithio y bydd y glaw yn peidio,” meddai.  
“Dydyn ni am i'r llyfogydd ddod cyn belled â'n tŷ ni.”



Y bore canlynol, pan oedd Cad a Dids yn yr ysgol, roedd yn dal i fwrw glaw. Allai'r plant ddim mynd allan i chwarae.

"Egwyl wlyb arall," ebychodd Dids. "Byddai'n dda gyda fi petai'r glaw yn peidio."

"A fi," ebychodd Mrs Jones, hefyd.



Yn y prynhawn, peidiodd y glaw.

"Hwrê! Nawr gallwn chwarae pêl-droed," meddai Wilff. Ond roedd pyllau mawr ar y cae.

"Mae'n ddrwg 'da fi," meddai Mrs Jones. "Fedrwn ni ddim chwarae pêl-droed heddiw. Mae'r ddaear yn rhy wlyb."




Y noson honno, roedd Cad, Dids ac Onw yn gwylio'r teledu. Daeth rhagolygon y tywydd. Roedd stormydd drwg ar y ffordd, gyda llawer mwy o law. "Dim mwy o law!" ebychodd Dids.



Daeth y storm ynghanol y nos. Roedd y glaw yn taro yn erbyn to'r tŷ ac yn hyrddio yn erbyn y ffenestri. Roedd mor swnllyd fel na fedrai Cad a Dids gysgu. Daeth Mam â diod boeth iddyn nhw.

"Druan o Mwlsyn," meddai Cad. "Mae e'n casáu hyn."



Yn y bore, aeth Dad â Mwlsyn am dro. Aeth Dids gyda nhw. Pan gyrhaeddodd nhw'r parc, ebychodd Dids. Roedd llifogydd yn y parc. Roedd fel llyn anferth. Roedd Dids yn meddwl bod y llifogydd yn hwyl.

Roedd golwg ofidus ar Dad.  
"Dydw i ddim yn hoffi golwg hyn," meddai.  
"Dydyn ni ddim eisiau i'r dŵr ddod cyn belled â'n tŷ ni." Gwenodd Dids ar Dad.  
"Fedrai e ddim mynd cyn belled â hynny," meddai.  
"Na fedrai?"



Ond wnaeth y glaw ddim peidio, ac roedd y llifogydd yn waeth. Cyrhaeddodd y dŵr ymylon y parc. Yna dechreuodd gropian i fyny'r ffordd. Daeth drwy'r ffens a llifodd dros ben pellaf yr ardd.



Roedd y ffordd ger tŷ Wilff a Wilma dan ddŵr. Gwyliodd y plant y ceir yn mynd drwy'r llifogydd. Roedd un car wedi torri ac ni fedrai symud o'r canol.






Y diwrnod hwnnw, roedd yr ysgol ynghau. Roedd y neuadd dan ddŵr a doedd dim gwres.

“Beth wnawn ni drwy’r dydd?” gofynnodd Wilff.

“Mae’n ddrwg ’da fi,” meddai Mrs Jones. “Fedrwn ni ddim agor yr ysgol heddiw.”




Pan aeth y plant adref, gwelon nhw lori yn y stryd. Roedd yn llawn bagiau tywod. Roedd pobl yn mynd â’r bagiau tywod i’w cartrefi.

“Rydyn ni am ichi i gyd helpu,” meddai Mam.



Helpodd Cad a Dids gario'r bagiau tywod. Roedden nhw'n drwm iawn. Rhoddodd Dad nhw o flaen y drysau. "Rwy ond yn gobeithio na ddaw'r dŵr cyn belled â hyn," meddai Dad.



Roedd Mam yn edrych yn drist.  
"Efallai bydd y llifogydd yn mynd yn waeth," meddai.  
"Felly does ond un peth i'w wneud."  
Cododd gadair.  
"Bydd yn rhaid inni fynd â phethau i fyny'r grisiau," meddai Mam.



Dechreuodd pawb gario pethau i fyny'r grisiau. Roedd yn waith trwm ac roedd Onw yn dechrau gofidio.

“Beth fydd yn digwydd os bydd y dŵr yn llyfo mewn i fy ystafell wely?” gofynnodd.

“Paid â phoeni,” meddai Cad. “Wnaiff e ddim.”

Roedd rhai pethau yn rhy fawr a thrwm i'w cario i fyny'r grisiau.

“Beth wnawn ni â'r sofffa?” gofynnodd Dad. Cafodd Mam syniad da. Aeth i ymofyn bwrdd oedd yn plygu.

“Gallwn roi'r sofffa ar hwn,” meddai.



Bu'n bwrw glaw yn y nos. Doedd Dad ddim yn gallu cysgu. Roedd e'n gofidio gormod am y llifogydd. Yna clywodd sŵn dŵr. Aeth i lawr y grisiau ac edrych. O na! Roedd y dŵr wedi llifo i mewn.



Deffrodd pawb. Doedd y goleuadau ddim yn gweithio, felly cynodd Mam lamp. Edrychodd pawb lawr llawr. Roedd y cyntedd yn llawn dŵr.

“Mae hyn yn ofnadwy,” meddai Dids. “Mae'n rhaid bod llawer o dai dan ddŵr.”



Y diwrnod canlynol, edrychodd Cad, Dids ac Onw allan o'r ffenestr. Roedd y llifogydd yn y stryd i gyd.

"Fedra i ddim credu hyn," meddai Onw. "Mae'n edrych fel afon."

"Mae'n anhygoel," meddai Cad.

Aeth dyn heibio yn rhwyfo ei ganŵ. Roedd yn ddoniol gweld canŵ yn y stryd. Gwaeddodd y dyn i fyny atyn nhw.

"Ydych chi'n iawn?" gofynnodd.

"Ydyn, diolch," meddai Dids. "Ond basai'n dda gennym petai'r llifogydd yn cilio."



Daeth swyddogion tân i'r stryd. Roedden nhw'n gwisgo bwtias mawr, hir.

“Gawn ni fynd â chi i rywle cynnes a sych?” gofynnodd swyddog tân.

“Os gwelwch yn dda,” meddai Mam. “Dydw i ddim yn credu y medrwn ni aros fan hyn.”




Daeth y swyddogion tân â dingi i'r drws blaen. Dringodd pawb i mewn. Cariodd Dad Mwlsyn.

“Wnes i erioed feddwl y bydden ni'n hwylio i fyny ein stryd mewn cwch,” meddai Dids.



Roedd Wilff a Wilma yn eu tŷ. Roedden nhw'n edrych drwy'r ffenestr. Cododd Cad, Dids ac Onw eu dwylo arnyn nhw.

“Cewch chi ddod i'n hachub ni nesaf,” galwodd Wilma.



Roedd cath yn gaeth ar ffens. Stopiodd y swyddog tân y dingi. Achubodd Dad y gath a'i rhoi i Mam. Edrychodd Mwlsyn ar y gath, ond wnaeth e ddim cyfarth hyd yn oed.

“Mae'n ymddwyn fel ci da,” meddai Onw.



Aethon nhw i neuadd yn y dref. Roedd llawer o bobl yno. Daeth Wilff a Wilma i mewn gyda'u mam a'u tad. Dangosodd Cad y gath oedd wedi ei hachub i Wilma. "Druan fach," meddai Wilma.

"Efallai bydd yn rhaid inni aros fan hyn heno," meddai Wilff. "Fedrwn ni ddim mynd adref i gysgu." Roedd Onw yn drist. Roedd gormod o bobl yn y neuadd. Doedd e ddim eisiau cysgu yno. "Rwy eisiau mynd adref," meddai.





Yn ddiweddarach yn y dydd, daeth Mam-gu i'r neuadd.

“Cewch chi i gyd aros gyda fi nes i'r llifogydd gilio,” meddai.

Roedd y plant wrth eu bodd.

“Bydd yn hwyl aros gyda Mam-gu,” meddai Onw.  
“Diolch Mam-gu.”



Pan oedd y llifogydd wedi cilio aethon nhw adref. Ebychodd pawb pan welon nhw'r tŷ. Roedd llaid dros y lloriau.

“Dyna lanast!” meddai Onw. “Rwy'n casáu hyn.”



“Does dim ots,” meddai Dad. “Mae pethau drwg yn digwydd o dro i dro.”

Rhoddodd fwythau mawr i’r plant. Yna rhoddodd e fop a brwsh i bawb.

“A beth sy’n fwy pwysig na’r llaid hwn i gyd? Ni sydd,” meddai Mam.



# Llifogydd!

Mae'n bwrw glaw ac yn bwrw glaw.  
Mae'r nant yn gorlifo ac mae'r parc  
dan ddŵr. Beth fydd yn digwydd os  
na fydd y glaw yn peidio?



Cam 8 Rhagor o Storiâu A  
Trefn ddarllen a argymhellir:

Arian Poced  
Yr Ysbryd Drwg  
Achubwch Mwlsyn!

Sut Le Oedd Yno?  
Llifogydd!  
Antur yn yr Aifft

Addasiad Cymraeg gan  
Juli Paschalis

